**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)**

**BIL YR HEDDLU, TROSEDDU, DEDFRYDU A'R LLYSOEDD**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29.2 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw*.*

2. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mawrth 2021. Gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 22 Mawrth ac wedyn ar 28 Mai, pan gafodd y Bil ei ailgyflwyno yn Senedd y DU ac yn dilyn Etholiad y Senedd ym mis Mai 2021. Gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 2) ar 5 Tachwedd yn dilyn gwelliant i gymal 17. Gosodwyd memorandwm atodol arall (Memorandwm Rhif 3) ar 20 Rhagfyr mewn ymateb i'r 91 o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 1 Rhagfyr i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yr oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer 15 ohonynt. Gosodwyd memorandwm atodol arall (Memorandwm Rhif 4) ar 7 Rhagfyr mewn ymateb i'r 19 o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Ionawr 2022 i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yr oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer 1 ohonynt. Cynhaliwyd dadl cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd ar 18 Ionawr mewn perthynas â'r holl femoranda cydsyniad deddfwriaethol a nodir yn y paragraff hwn. Gosodwyd dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn y ddadl. Gofynnwyd i'r Senedd gytuno ar gynnig 1 a gwrthod cynnig 2, a dyna oedd canlyniad y bleidlais.

3. Ar 17 Ionawr 2022, yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, cytunwyd ar 161 o welliannau nad ydynt yn welliannau gan y llywodraeth (gweler paragraffau 9 i 11 isod i gael rhagor o fanylion am y gwelliannau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd). Cynigiodd Llywodraeth y DU 42 o welliannau eraill ar 22 Chwefror 2022 i'w hystyried yn ystod cyfnod ystyried y gwelliannau terfynol ('Ping Pong') pan fydd y Bil yn dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin ar 28 Chwefror 2022. Mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer 11 o'r gwelliannau hyn. Mae'r memorandwm atodol hwn (Memorandwm Rhif 5) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cymalau hyn.

4. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y memorandwm atodol hwn yn cyfeirio at y Bil fel y'i diwygiwyd ar 18 Tachwedd, sydd i'w weld yn: newbook.book (parliament.uk)

**Amcan(ion) Polisi**

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwneud y wlad yn fwy diogel drwy rymuso'r heddlu a'r llysoedd i gymryd camau mwy effeithiol yn erbyn troseddu ac i arwain system gyfiawnder deg. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad penodol i ddiogelu a grymuso'r heddlu drwy ymgorffori Cyfamod yr Heddlu mewn cyfraith a chyflwyno gorchymyn llys newydd i dargedu'r sawl y mae'n hysbys eu bod yn cario cyllyll, gan ei gwneud yn haws i swyddogion stopio a chwilio'r rhai hynny a ddyfarnwyd yn euog o droseddau'n ymwneud â chyllyll.

6. O ran y llysoedd a dedfrydu, mae'r Bil yn cynnwys ymrwymiadau i: rymuso'r llysoedd i fynd i'r afael â throseddu; sicrhau system gyfiawnder deg drwy gyflwyno dedfrydau llymach i'r troseddwyr gwaethaf a rhoi terfyn ar ryddhau troseddwyr yn awtomatig o'r carchar hanner ffordd drwy eu dedfryd am droseddau difrifol. Mae hefyd yn ceisio cryfhau dedfrydau cymunedol, er enghraifft drwy gryfhau cyrffyw, gwneud i'r rhai hynny a euogfarnwyd ymgymryd â mwy o oriau o wneud iawn â'r gymuned, cael pobl i gefnu ar droseddu a thorri'r cylch aildroseddu.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth;
   - i'r heddlu a gweithwyr gwasanaethau brys eraill wneud darpariaeth ynghylch cydweithio rhwng awdurdodau i atal a lleihau trais difrifol;
   - ar gyfer troseddau newydd ac addasu troseddau presennol;
   - ynghylch pwerau'r heddlu ac awdurdodau eraill at ddibenion atal, canfod ac ymchwilio i droseddau neu eu herlyn, neu at ddiben ymchwilio i faterion eraill;
   - ynghylch cynnal y drefn gyhoeddus;
   - ynghylch symud ymaith, storio a gwaredu cerbydau; i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau gyrru;
   - ynghylch rhybuddiadau;
   - ynghylch mechnïaeth a rémand;
   - ynghylch dedfrydu, cadw, rhyddhau, rheoli ac adsefydlu troseddwyr;
   - ynghylch Academïau diogel ar gyfer rhai 16-19 oed; ac
   - mewn cysylltiad â gweithdrefnau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Crynodeb o'r gwelliannau allweddol a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi yn ystod y cyfnod Adrodd**

9. Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi ar gyfres o welliannau yn ei gyfnod Adrodd ar 17 Ionawr, ac roedd rhai ohonynt yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion hyn, mae'r gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU ar 22 Chwefror wedyn yn newid y sefyllfa ymhellach.

10. Er gwybodaeth yn unig, mae'r tabl isod yn nodi’r gwelliannau gan yr Arglwyddi a fyddai wedi bod o fewn cymhwysedd y Senedd, ac effaith ddilynol y gwelliannau arfaethedig a gyflwynwyd ar 22 Chwefror.

| **Disgrifiad o'r cymal** | **Rhif y cymal (Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod adrodd Tŷ’r Arglwyddi)** | **Effaith y gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22/2/22 (y rhai sydd o fewn cymhwysedd yn unig)** |
|---|---|---|
| Troseddau a ysgogir gan elyniaeth tuag at ryw neu rywedd y dioddefwr | 73 | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn dileu’r gwelliant hwn gan yr Arglwyddi yn llwyr. |
| Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus | 74 | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn adfer is-adrannau (2) a (3) a gafodd eu dileu gan yr Arglwyddi. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn ceisio cadw'r is-adran ychwanegol a gynigiwyd gan yr Arglwyddi. |
| Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus | Dim rhif cymal gan ei fod wedi’i ddileu o’r Bil | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn adfer y cymal hwn, a gafodd ei ddileu gan yr Arglwyddi. Maent hefyd yn mewnosod gwelliant ychwanegol o sylwedd, a diwygiadau canlyniadol pellach. |
| Diddymu Deddf Crwydraeth 1824 etc | 81 | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn dileu gwelliant yr Arglwyddi yn llwyr, gan ei ddisodli â gwelliant gwahanol i ddiddymu Deddf Crwydraeth 1824 a gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol. |
| Gosod amodau ar brotestiadau un person | Dim rhif cymal gan ei fod wedi’i ddileu o’r Bil | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn adfer y cymal hwn, a gafodd ei ddileu gan yr Arglwyddi. Byddent hefyd yn mewnosod gwelliant |

| | | |
|---|---|---|
| | | ychwanegol o sylwedd, a diwygiadau canlyniadol pellach. |

11. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, yn unol â'r gwelliannau arfaethedig sy'n dod o fewn ein cymhwysedd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 22 Chwefror. Defnyddir rhifau cymalau os yw'r rhain ar gael, ond nid oes rhifau ar gyfer rhai gwelliannau newydd gan nad oeddent wedi'u cynnwys yn y Bil fel y'i cyhoeddwyd ar 18 Ionawr. Cyfeirir at y rhain yn ôl eu disgrifiadau yn unol â'r tabl uchod.

**Newidiadau i'r Bil ers gosod y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 4) – gwelliant y cytunwyd arno yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi**

<u>Cymal 73 – Troseddau a ysgogir gan elyniaeth yn ymwneud â rhyw neu rywedd</u>

12. Yn dilyn y cytundeb i welliant yng nghyfnod Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 17 Ionawr, ychwanegwyd Cymal 73 at y Bil. Mae cymal 73 yn ei gwneud yn ofynnol i Lysoedd drin gelyniaeth ar sail rhyw neu rywedd fel ffactor waethygol wrth ystyried difrifoldeb troseddau ac eithrio troseddau rhyw a throseddau cam-drin domestig penodol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddogion yr Heddlu gadw data am nifer yr adroddiadau sy'n ymwneud â throseddau o'r fath.

13. Mae'r gwelliannau arfaethedig a gyflwynwyd ar 22 Chwefror yn nodi bod Llywodraeth y DU yn anghytuno â Thŷ'r Arglwyddi o ran ei welliant ac yn cynnig i Dŷ'r Cyffredin fod cymal 73 yn cael ei ddileu o'r Bil. Rwyf yn dal i roi cyngor ar y cymal hwn, yn unol â phenderfyniad yr Arglwyddi ar 17 Ionawr.

14. Bernir bod y mater yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Er bod plismona a diogelu data personol yn faterion a gadwyd yn ôl, rydym yn gyfrifol am ddiogelu, gan gynnwys amddiffyn menywod a merched, sef diben bwriadedig y cymal.

**Newidiadau i'r Bil ers gosod y memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 4) - gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 22 Chwefror 2022 i'w hystyried gan Dŷ'r Cyffredin yn ystod "Ping-Pong"**

<u>Cymal 74 - Gosod amod ar orymdeithiau cyhoeddus</u>

15. Mae Llywodraeth y DU drwy'r gwelliannau hyn yn bwriadu adfer adran (2) a (3) o Gymal 74, yn dilyn y cytundeb i ddileu'r adrannau hyn yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. At hynny, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cadw'r is-adran ychwanegol a gynigiwyd gan Dŷ'r Arglwyddi. Mae'r is-adran newydd yn diwygio Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 drwy gynnwys achosion pan allai gorymdeithiau cyhoeddus achosi

aflonyddwch difrifol i fywyd y gymuned. Mae hyn yn cynnwys pan allai ai gorymdaith arwain at oedi sylweddol wrth ddanfon cynnyrch sy'n sensitif i amser, neu pan allai gorymdaith olygu amharu'n hir ar fynediad at unrhyw nwyddau hanfodol neu wasanaethau hanfodol. Mae hefyd yn rhagnodi pryd y gallai aflonyddwch difrifol gael ei achosi o ganlyniad i sŵn sy’n cael ei greu gan orymdaith.

16. Er bod trefn gyhoeddus yn fater a gadwyd yn ôl, mae'r elfennau sŵn yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru.

<u>Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus a Gosod amodau ar brotestiadau un person</u>

17. Gwnaed cytundeb yng ngham AdroddTŷ'r Arglwyddi i ddileu'r ddau gymal hyn yn eu cyfanrwydd, ac roeddem yn cefnogi hynny. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu adfer y cymalau hyn yn llawn gyda gwelliannau.

18. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r cymal 'Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus' drwy gynnwys achosion pan allai cynulliadau cyhoeddus amharu'n ddifrifol ar fywyd y gymuned. Mae hyn yn cynnwys achos pryd y gallai cynulliad arwain at oedi sylweddol wrth ddanfon cynnyrch sy'n sensitif i amser, neu pryd y gallai cynulliad arwain at amharu'n hir ar fynediad at unrhyw nwyddau hanfodol neu wasanaethau hanfodol. Mae hefyd yn rhagnodi pryd y gallai tarfu difrifol gael ei achosi o ganlyniad i sŵn sy’n cael ei greu gan gynulliad.

19. At hynny, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu diwygio'r cymal 'Gosod amodau ar brotestiadau un person' drwy ragnodi pryd y gallai tarfu difrifol gael ei achosi o ganlyniad i sŵn sy’n cael ei greu gan brotest un person.

<u>Gorchmynion Carlam i Ddiogelu Mannau Cyhoeddus</u>

20. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig gwelliannau mewn perthynas â gorchmynion carlam i ddiogelu mannau cyhoeddus. Mae'r diwygiadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud gorchymyn carlam i ddiogelu mannau cyhoeddus mewn perthynas ag ysgolion neu safleoedd yn eu hardal a ddefnyddir fel canolfannau brechu neu brofi, os yw'r lleoedd hynny wedi bod yn destun protestiadau neu arddangosiadau sydd wedi cael, neu sy'n debygol o gael, yr effaith o aflonyddu ar neu fygwth staff ar y safle, defnyddwyr y safle, gwirfoddolwyr ar y safle neu rwystro mynediad at wasanaethau'r ysgol neu'r safle.

21. Mae'r gwelliannau hyn yn gosod swyddogaethau a gadwyd yn ôl ar awdurdodau lleol, sef Awdurdodau Datganoledig Cymru. Am y rheswm hwn, rwyf yn gosod y Memorandwm atodol hwn i adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

Cymal 81 - Diddymu Deddf Crwydraeth 1824 etc

22. Ar 17 Ionawr cytunodd yr Arglwyddi ar welliant i ddiddymu Deddf Crwydraeth 1824 ac aseswyd bod y gwelliant hwn o fewn cymhwysedd y Senedd gan ei fod yn ymwneud â digartrefedd, sydd wedi'i ddatganoli.

23. Mae Llywodraeth y DU bellach yn bwriadu dileu'r gwelliant hwn ac wedi cyflwyno gwelliant arall. Mae gwelliant newydd Llywodraeth y DU yn trin diddymu'r Deddf Crwydraeth yn wahanol o'i gymharu â gwelliant yr Arglwyddi. Fodd bynnag, bernir bod y gwelliant o fewn cymhwysedd o hyd gan ei fod yn effeithio ar faterion datganoledig tai a digartrefedd, ac felly mae wedi'i gynnwys yn y Memorandwm hwn.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn y gwelliannau a gyflwynwyd ar 22 Chwefror – Crynodeb**

24. Dyma grynodeb o'n safbwynt o ran y gwelliannau a gyflwynwyd ar 22 Chwefror i'w hystyried yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod "Ping Pong".

25. Yr holl gymalau yn y Bil a gyflwynwyd ar 22 Chwefror yr wyf yn argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt:

- Cymal 73 - Troseddau a ysgogir gan elyniaeth tuag at ryw neu rywedd y dioddefwr
- Cymal 81 (diddymu Deddf Crwydraeth 1824

26. Yr holl gymalau yn y Bil a gyflwynwyd ar 22 Chwefror yr wyf yn argymell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt:

- Cymal 74 – Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus
- Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus
- Gosod amodau ar brotestiadau un person
- Gorchmynion carlam i ddiogelu mannau cyhoeddus

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn y gwelliannau a gyflwynwyd ar 22 Chwefror – gwelliannau yr wyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt**

Cymal 73 - Troseddau a ysgogir gan elyniaeth tuag at ryw neu rywedd y dioddefwr

27. Argymhellais y dylai'r Senedd gefnogi'n llawn roi cydsyniad i'r cynnig hwn fel y cytunwyd arno yn Nhŷ'r Arglwyddi, er y byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 22 Chwefror yn ei ddileu o'r Bil. Mae'r mesurau'n cyd-fynd â'n nod o fynd i'r afael â chasineb o bob math at fenywod a sicrhau bod menywod yn gallu byw'n rhydd rhag bygythiad o ragfarn a thrais ar sail rhywedd.

Cymal 81 - Diddymu Deddf Crwydraeth 1824

28. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir nad yw'r Ddeddf bellach yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif ac y dylid ei diddymu. Roeddem wedi egluro'r farn hon mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ymhell cyn i'r Bil hwn gael ei osod.

29. Mae gan wasanaethau'r heddlu well cyfreithiau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dylem symud ymlaen oddi wrth gyfraith sy'n creu troseddwr o rywun ar sail ei sefyllfa o ran cartref. Bydd defnyddio'r pwerau o dan y Ddeddf Crwydraeth i symud rhywun ymlaen yn dieithrio'r person hwnnw ac yn atgyfnerthu'r ddrwgdybiaeth o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r dull hwn yn achosi oedi cyn y gellir rhoi cymorth i rywun sy'n cysgu ar y stryd. Mae hyn yn fwy tebygol o'u gwthio i ffwrdd oddi wrth y cymorth hwnnw ac i berygl.

30. Ar y sail hon, rydym yn cefnogi'r gwelliant hwn a diddymu'r Ddeddf ac felly rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal hwn.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn cyflwyno gwelliannau ar 22 Chwefror – gwelliannau yr wyf yn argymhell na ddylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt**

<u>Cymal 74 - Gosod amod ar orymdeithiau cyhoeddus</u>

31. Mae'r cymal hwn wedi'i gynnwys mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol yr wyf wedi'u gosod, ac felly mae'r memorandwm pellach hwn yn cael ei osod i adlewyrchu'r gwelliant hwn. Mae ein safbwynt ar y cymal hwn yn dal yr un fath ac felly rwyf yn argymell y dylai'r Senedd barhau i atal ei chydsyniad i'r cymal hwn.

<u>Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus a gosod amodau ar brotestiadau un person</u>

32. Mae'r cymalau hyn a adferwyd wedi'u cynnwys mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol yr wyf wedi'u gosod. Felly, mae'r memorandwm atodol hwn yn cael ei osod i adlewyrchu'r diwygiadau i'r ddau gymal hyn. Mae ein safbwynt ar y ddau gymal hyn yn dal yr un fath ac felly rwyf yn argymell y dylai'r Senedd barhau i atal ei chydsyniad i'r ddau gymal.

<u>Gorchmynion carlam i ddiogelu mannau cyhoeddus</u>

33. Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi'r angen i sicrhau bod pobl sy'n gweithio mewn ysgolion a safleoedd brechu, yn eu mynychu neu'n mynd iddynt, yn gallu gwneud hynny'n ddiogel. Fodd bynnag, mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn rhoi digon o gwmpas i ddiogelu safleoedd brechu heb gyfyngu ar yr hawl i brotestio.

34. Mae gan awdurdodau lleol y gallu eisoes i ddyroddi gorchmynion diogelu mannau cyhoeddus, ac ni fyddai'r gwelliant hwn yn cynyddu eu gallu i fynd i'r afael ag ymddygiad peryglus neu wrthgymdeithasol. Y cyfan y byddai'n ei wneud, yn hytrach, fyddai rhoi mynediad hwylus at y pwerau hyn i awdurdodau lleol mewn rhai amgylchiadau, a fyddai'n golygu ymateb yn fyrbwyll a difyfyr i brotestiadau yn hytrach na dilyn y drefn briodol sy'n deg a chymesur.

35. Mae'r hawl i brotestio yn hanfodol i lwyddiant democratiaeth. Mae rhyddid mynegiant, hyd yn oed pan fyddwn yn anghytuno ag ef, yn dda i bobl, yn dda i gymunedau ac yn dda i gymdeithas gyfan. Rwyf yn parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r cymal hwn.

**Goblygiadau ariannol**

36. Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol ond ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

**Casgliad**

37. Ceir darpariaethau yn y Bil hwn yr ydym yn eu croesawu ac sy'n cyd-fynd â'n polisïau. O ran darpariaethau o'r fath, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraffau 27 i 30.

38. Fodd bynnag, ceir rhai darpariaethau yn y Bil hwn nad ydynt yn cyd-fynd â'n polisïau. O ran y darpariaethau hynny, rwyf yn argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad, fel y rhestrir ym mharagraffau 31 i 35.

**Jane Hutt AS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**28 Chwefror 2022**

**Atodiad A - Tabl yn cymharu'r fersiwn wreiddiol o'r Bil a'r fersiwn newydd ohono ar 18 Ionawr 2022**

Fersiwn wreiddiol:
newbook.book (parliament.uk)
Tachwedd 2021:
newbook.book (parliament.uk)
Ionawr 2022:
newbook.book (parliament.uk)

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Fel y'i diwygi-wyd yn ystod y cyfnod adrodd | Fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi | Effaith gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22/2/22 (y rhai sydd o fewn cymhwysedd yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Cyfamod yr Heddlu | 1 | 1 | |
| 2 | Cynyddu'r gosb am ymosod ar weithiwr brys | 2 | 2 | |
| | Dedfryd oes ofynnol ar gyfer dynladdiad gweithiwr brys | | 3 | |
| 3 | Cwnstabliaid arbennig a Ffederasiynau'r Heddlu: diwygiadau i Ddeddf yr Heddlu 1996 | 3 | 4 | |
| 4 | Ystyr gyrru peryglus: cwnstabliaid etc (peryglus) | 4 | 5 | |
| 5 | Ystyr gyrru diofal: cwnstabliaid etc (diofal) | 5 | 6 | |
| 6 | Rheoliadau sy'n ymwneud ag adran 5 a 6 (rheoliadau) | 6 | 7 | |
| 7 | Dyletswyddau i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol | 7 | 8 | |
| 8 | Pwerau i gydweithio a chynllunio i atal a lleihau trais difrifol | 8 | 9 | |
| 9 | Pŵer i awdurdodi cydweithio etc gyda phersonau eraill | 9 | 10 | |
| 10 | Awdurdodau penodedig ac ardaloedd llywodraeth leol | 10 | 11 | |
| 11 | Awdurdodau addysg, awdurodau carchardai ac awdurdodau dalfeydd ieuenctid | 11 | 12 | |
| 12 | Atal a lleihau trais difrifol | 12 | 13 | |
| 13 | Cynnwys cyrff plismona lleol | 13 | 14 | |
| 14 | Cynnwys awdurdodau | 14 | 15 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | addysg, awdurdodau carchardai ac awdurdodau dalfeydd ieuenctid | | | |
| 15 | Datgelu gwybodaeth | 15 | 16 | |
| 16 | Cyflenwi gwybodaeth i gyrff plismona lleol | 16 | 17 | |
| 17 | Cyfarwyddydau | 17 | 18 | |
| 18 | Canllawiau | 18 | 19 | |
| 19 | Diwygio Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 | 19 | 20 | |
| 20 | Diwygio Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 | 20 | 21 | |
| 21 | Rheoliadau | 21 | 22 | |
| 22 | Mynegai o ymadroddion diffiniedig | 22 | 23 | |
| | | | | |
| 23 | Dyletswydd i drefnu adolygiad | 23 | 24 | |
| 24 | Partneriaid adolygu perthnasol | 24 | 25 | |
| 25 | Perthynas â gofynion adolygu eraill | 25 | 26 | |
| 26 | Hysbysu’r Ysgrifennydd Gwladol | 26 | 27 | |
| 27 | Trefn cynnal adolygiad | 27 | 28 | |
| 28 | Gwybodaeth | 28 | 29 | |
| 29 | Gwybodaeth: atodol | 29 | 30 | |
| 30 | Swyddogaethau dirprwyo | 30 | 31 | |
| 31 | Canllawiau | 31 | 32 | |
| 32 | Pŵer i dalu grant: byrddau iechyd lleol | 32 | 33 | |
| 33 | Treialu | 33 | 34 | |
| 34 | Rheoliadau | 34 | 35 | |
| 35 | Dehongli | 35 | 36 | |
| | | | | |
| 36 | Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwilio i drosedd etc | 36 | 37 | |
| 37 | Cymhwyso adran 37 ~~36~~ i blant ac oedolion heb alluedd | 37 | 38 | |
| | Gofynion ar gyfer darparu’n wirfoddol a chytuno | 38 | 39 | |
| 38 | Cymhwyso adran ~~36~~ 37 lle mae'r defnyddiwr wedi marw etc | 39 | 40 | |
| 39 | Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig: ymchwilio i farwolaeth | 40 | 41 | |
| 40 | Cod ymarfer ar echdynnu gwybodaeth | 41 | 42 | |
| 41 | ~~Rheoliadau ynghylch~~ | 42 | 43 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ~~echdynnu~~ Gwybodaeth gyfrinachol | | | |
| 42 | Personau awdurdodedig | 43 | 44 | |
| | | | | |
| 43 | Mechnïaeth cyn cyhuddo | 44 | 45 | |
| | | | | |
| 44 | Trefnu neu hwyluso cyflawni trosedd ryw yn erbyn plant | 45 | 46 | |
| 45 | Swyddi o ymddiriedaeth | 46 | 47 | |
| | Voyeuriaeth: bwydo ar y fron | | 48 | |
| | | | | |
| | Terfyn amser ar gyfer erlyn am ymosodiad cyffredin neu guro mewn achosion o gam-drin domestig | | 49 | |
| 46 | Difrod troseddol i gofebau: dull treial | 47 | 50 | |
| | | | | |
| 47 | Gorchmynion darparu tramor | 48 | 51 | |
| 48 | Pŵer i dynnu lluniau personau penodol mewn gorsaf heddlu | 49 | 52 | |
| 49 | Pŵer i bennu dyddiad presenoldeb mewn gorsaf heddlu ar gyfer olion bysedd etc | 50 | 53 | |
| | Cymhwyso Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd | | 54 | |
| | | | | |
| 50 | Mynd i mewn i fangre a'i chwilio am weddillion dynol neu ddeunydd sy'n ymwneud ag olion dynol | 51 | 55 | |
| 51 | Gweithdrefn arbennig ar gyfer mynediad at ddeunydd sy'n ymwneud ag olion dynol | 52 | 56 | |
| 52 | Pwerau atafaelu ychwanegol | 53 | 57 | |
| | | | | |
| 53 | Swyddogaethau swyddogion dalfa carcharorion mewn perthynas â gwrandawiadau cyswllt byw | 54 | 58 | |
| | Enillion o droseddau: Gorchmynion rhewi cyfrifon | 55 | 59 | |
| | Cod ymarfer sy'n ymwneud â digwyddiadau casineb nad ydynt yn droseddol | | 60 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth bellach ynghylch cod ymarfer o dan adran 60 | | 61 | |
| | Cynyddu’r gosb am droseddau’n ymwneud â helwriaeth etc | | 62 | |
| | Tresmasu gyda'r bwriad o chwilio am ysgyfarnogod neu ymlid ysgyfarnogod â chŵn etc | | 63 | |
| | Bod â'r cyfarpar ar gyfer chwilio am ysgyfarnogod neu eu hymlid â chŵn etc | | 64 | |
| | Gorchymyn adfer yn dilyn euogfarn am droseddau penodol sy'n ymwneud â chŵn | | 65 | |
| | Gorchymyn anghymhwyso yn dilyn euogfarn am droseddau penodol sy'n ymwneud â chŵn | | 66 | |
| | Atafaelu a gwaredu cŵn mewn cysylltiad â gorchymyn anghymhwyso | | 67 | |
| | Terfynu gorchymyn anghymhwyso | | 68 | |
| | Adran 67: Atodol | | 69 | |
| | Gorchmynion anghymhwyso: apeliadau | | 70 | |
| | Adolygiad brys o droseddau o dan adran 61 o Ddeddf Troseddau Rhyw 2003 | | 71 | |
| | Atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus: dyletswyddau ar weithlu'r heddlu | | 72 | |
| | Troseddau a ysgogir gan elyniaeth tuag at ryw neu rywedd y dioddefwr | | 73 | Mae gwelliannau Llywodraeth y DU yn dileu’r gwelliant hwn gan yr Arglwyddi yn llwyr. |
| 54 | Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus | 56 | 74 | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn adfer is-adrannau (2) a (3) yn ôl a gafodd eu dileu gan yr Arglwyddi. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn ceisio cadw'r is-adran ychwanegol a gynigiwyd gan yr Arglwyddi. |
| 55 | Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus | 57 | Wedi'i ddileu o’r | Byddai gwelliannau arfaethedig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bil | Llywodraeth y DU yn adfer y cymal hwn, a gafodd ei ddileu gan yr Arglwyddi. Maent hefyd yn mewnosod gwelliant ychwanegol o sylwedd, a diwygiadau canlyniadol pellach. |
| 56 | Troseddau o dan adrannau 12 a 14 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 | 58 | 75 | |
| 57 | Rhwystro mynediad i gerbydau i Senedd y DU | 59 | 76 | |
| 58 | Pŵer i bennu ardaloedd eraill fel ardaloedd rheoledig | 60 | 77 | |
| 59 | Achosi niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid | 61 | 78 | |
| | Rhwystro priffordd yn fwriadol | | 79 | |
| | Seilwaith cenedlaethol allweddol | | 80 | |
| | Diddymu Deddf Crwydraeth 1824 | | 81 | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn dileu gwelliant yr Arglwyddi yn llwyr, gan ei ddisodli â gwelliant gwahanol i ddiddymu Deddf Crwydraeth 1824, a byddent yn gwneud diwygiadau canlyniadol angenrheidiol. |
| 60 | Gosod amodau ar brotestiadau un person | 62 | Wedi'i ddileu o'r Bil | Byddai gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU yn adfer y cymal hwn, a gafodd ei ddileu gan yr Arglwyddi. Byddent hefyd yn mewnosod gwelliant sylweddol ychwanegol a diwygiadau canlyniadol pellach. |
| | | | | |
| 61 | Trosedd sy'n ymwneud â byw ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd | 63 | 82 | |
| 62 | Diwygio pwerau sy’n bodoli eisoes | 64 | 83 | |
| 63 | Canllawiau ar arfer pwerau'r heddlu mewn perthynas â | 65 | 84 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | thresmaswyr ar dir etc | | | |
| | | | | |
| 64 | Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus neu yrru'n ddiofal o dan ddylanwad diod neu gyffuriau: cynyddu’r cosbau | 66 | 85 | |
| 65 | Achosi anaf difrifol drwy yrru'n ddiofal neu'n anystyriol | 67 | 86 | |
| 66 | Troseddau traffig ffyrdd: mân a chanlyniadol | 68 | 87 | |
| 67 | Cyrsiau a gynigir yn lle erlyn: ffioedd etc | 69 | 88 | |
| 68 | Ffioedd am symud, storio a gwaredu cerbydau | 70 | 89 | |
| 69 | Darparu trwydded i'r llys | 71 | 90 | |
| 70 | Ildio trwydded i'r Ysgrifennydd Gwladol pan fo person wedi'i anghymhwyso | 72 | 91 | |
| 71 | Dileu gofyniad i ildio trwydded pan fo hysbysiad cosb benodedig | 73 | 92 | |
| 72 | Dileu'r gofyniad i ddarparu trwydded pan fo cynnig amodol | 74 | 93 | |
| 73 | Ildio trwydded a thystysgrif prawf gan yrwyr newydd | 75 | 94 | |
| 74 | Diwygiadau mân a chanlyniadol | 76 | 95 | |
| 75 | Pŵer i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig yn y fan a'r lle yn yr Alban | 77 | 96 | |
| | | | | |
| 76 | Rhybuddiadau dargyfeiriol a chymunedol | 78 | 97 | |
| 77 | Rhoi rhybuddiad dargyfeiriol | 79 | 98 | |
| 78 | Penderfynu ar yr amodau | 80 | 99 | |
| 79 | Amodau adsefydlu a gwneud iawn | 81 | 100 | |
| 80 | Amodau ar gyfer cosbau ariannol | 82 | 101 | |
| 81 | Amodau troseddwyr tramor | 83 | 102 | |
| 82 | Amrywio amodau | 84 | 103 | |
| 83 | Effaith rhybuddiad dargyfeiriol | 85 | 104 | |
| 84 | Arestio am fethu â chydymffurfio | 86 | 105 | |
| 85 | Cymhwyso Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 | 87 | 106 | |
| 86 | Rhoi rhybuddiad cymunedol | 88 | 107 | |
| 87 | Penderfynu ar yr amodau | 89 | 108 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 88 | Amodau adsefydlu a gwneud iawn | 90 | 109 | |
| 89 | Amodau ar gyfer cosbau ariannol | 91 | 110 | |
| 90 | Gorfodi cosbau ariannol: cofrestru | 92 | 111 | |
| 91 | Gorfodi cosbau ariannol: achos llys | 93 | 112 | |
| 92 | Amrywio amodau | 94 | 113 | |
| 93 | Effaith rhybuddiad cymunedol | 95 | 114 | |
| 94 | Cod ymarfer | 96 | 115 | |
| 95 | Cyfyngiad ar rybuddiadau lluosog | 97 | 116 | |
| 96 | Diddymu rhybuddiadau eraill a datrysiadau y tu allan i'r llys | 98 | 117 | |
| 97 | Diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 6 | 99 | 118 | |
| 98 | Rheoliadau o dan ran 6 | 100 | 119 | |
| 99 | Dehongli Rhan 6 | 101 | 120 | |
| | | | | |
| | Cosb am greulondeb i blant | | 121 | |
| | Cosb am achosi neu ganiatáu i blentyn neu oedolyn agored i niwed farw neu ddioddef niwed corfforol difrifol | | 122 | |
| 100 | Y dedfrydau uchaf ar gyfer troseddau penodol | 102 | 123 | |
| 101 | Gorchymyn oes gyfan fel man cychwyn ar gyfer llofruddiaeth plentyn sy’n rhagfwriadedig | 103 | 124 | |
| 102 | Gorchmynion oes gyfan mewn achosion eithriadol i droseddwyr ifanc sy'n oedolion | 104 | 125 | |
| 103 | Mannau cychwyn ar gyfer llofruddiaeth a gyflawnir pan fo person o dan 18 oed | 105 | 126 | |
| 104 | Dedfrydau cadw hyd y mynno Ei Mawrhydi: adolygu’r cyfnod dedfrydu isaf | 106 | 127 | |
| 105 | Dedfryd oes nad yw'n cael ei phennu yn ôl y gyfraith: y cyfnod dedfrydu isaf | 107 | 128 | |
| 106 | Cynnydd yn y cyfnod gofynnol yn y ddalfa i droseddwyr treisgar neu rywiol penodol | 108 | 129 | |
| 107 | Cynnydd yn y cyfnod gofynnol yn y ddalfa i droseddwyr penodol eraill sy’n peri pryder | 109 | 130 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | neilltuol | | | |
| 108 | Pŵer i gyfeirio troseddwyr risg uchel at y Bwrdd Parôl yn lle eu rhyddhau | 110 | 131 | |
| 109 | Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer ailystyried a neilltuo penderfyniadau'r Bwrdd Parôl | 111 | 132 | |
| 110 | Cyfrifoldeb am osod amodau trwydded ar gyfer carcharorion cyfnod penodol | 112 | 133 | |
| 111 | Diddymu darpariaeth heb ei chychwyn ar gyfer sefydlu dyfarnwyr adalw | 113 | 134 | |
| 112 | Rhyddhau yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd Parôl ar ôl adalw: carcharorion cyfnod penodol | 114 | 135 | |
| 113 | Pŵer i newid y prawf ar gyfer rhyddhau carcharorion cyfnod penodol yn dilyn adalw | 115 | 136 | |
| 114 | Rhyddhau yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd Parôl: amseru | 116 | 137 | |
| | | | | |
| 115 | Estyn yr anghymhwysiad rhag gyrru pan roddwyd dedfryd o garchar: Cymru a Lloegr | 117 | 138 | |
| 116 | Cynyddu’r cyfnodau anghymhwyso rhag gyrru o dan rai gorchmynion sy’n bodoli: Cymru a Lloegr | 118 | 139 | |
| 117 | Estyn yr anghymhwysiad rhag gyrru pan roddwyd dedfryd o garchar: yr Alban | 119 | 140 | |
| 118 | Cynyddu’r cyfnodau anghymhwyso rhag gyrru o dan rai gorchmynion sy’n bodoli: yr Alban | 120 | 141 | |
| 119 | Cyfrifo'r cyfnod cyn rhyddhau neu cyn atgyfeiriad gan y Bwrdd Parôl pan fo person yn treulio dedfrydau lluosog | 121 | 142 | |
| 120 | Cymhwyso’r darpariaethau rhyddhau i garcharorion a ddychwelir i’w gwlad eu hunain | 122 | 143 | |
| 121 | Dedfrydau a throseddau y gellir gosod amod polygraff ar eu cyfer | 123 | 144 | |
| 122 | Mân ddiwygiadau sy'n | 124 | 145 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ymwneud â throseddau sy'n ymwneud ag arfau | | | |
| 123 | Cymhwyso’r ddarpariaeth ynghylch cyfnodau dedfrydu lleiaf i droseddau gan aelodau o’r lluoedd arfog | 125 | 146 | |
| | | | | |
| 124 | Goruchwyliaeth gan swyddog cyfrifol | 126 | 147 | |
| 125 | Cynyddu’r oriau dyddiol uchaf ar gyfer cyrffyw a chynyddu cyfnod gofynnol cyrffyw | 127 | 148 | |
| 126 | Pŵer i swyddog cyfrifol amrywio gofynion cyrffyw etc | 128 | 149 | |
| 127 | Dileu’r gofynion o ran canolfan bresenoldeb i oedolion | 129 | 150 | |
| 128 | Gweithdrefnau arbennig sy'n ymwneud ag adolygu a thorri gorchymyn | 130 | 151 | |
| 129 | Gofyniad profi am gyffuriau | 131 | 152 | |
| 130 | Dyletswydd i ymgynghori ar ofynion gwaith di-dâl | 132 | 153 | |
| | Ymosodiadau ar y rhai sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus etc | | 154 | |
| 131 | Remánd Ieuenctid | 133 | 155 | |
| 132 | Disgresiwn o ran hyd cyfnod | 134 | 156 | |
| 133 | Gorchymyn cadw a hyfforddi a dedfryd gadw olynol: effaith penderfyniad i ryddhau’n gynnar | 135 | 157 | |
| 134 | Gorchymyn cadw a hyfforddi: yr amser i’w gyfrif fel rhan o fwrw dedfryd | 136 | 158 | |
| 135 | Gorchmynion adsefydlu ieuenctid | 137 | 159 | |
| 136 | Diddymu gorchmynion gwneud iawn | 138 | 160 | |
| 137 | Rhyddhau dros dro o gartrefi diogel i blant | 139 | 161 | |
| 138 | Academïau diogel ar gyfer rhai 16-19 oed | 140 | 162 | |
| 139 | Gorchmynion lleihau trais difrifol | 141 | 163 | |
| 140 | Gorchmynion lleihau trais difrifol: treialu | 142 | 164 | |
| | Gorchymyn atal troseddau | | 165 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyllyll wrth euogfarnu: gohirio’r achos | | | |
| 141 | Lleoliadau hysbysu ar gyfer troseddwyr rhyw | 143 | 166 | |
| 142 | Troseddau y tu allan i’r Deyrnas Unedig: gofynion hysbysu | 144 | 167 | |
| 143 | Gorchmynion hysbysu: yr Alban | 145 | 168 | |
| 144 | Ceisiadau gan Heddlu Trafnidiaeth Prydain a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn | 146 | 169 | |
| 145 | Rhestr o wledydd | 147 | 170 | |
| 146 | Gofyniad i lysoedd a phersonau penodol roi sylw i'r rhestr o wledydd | 148 | 171 | |
| 147 | Safon tystiolaeth | 149 | 172 | |
| 148 | Gorchmynion atal niwed rhywiol: pŵer i osod gofynion cadarnhaol | 150 | 173 | |
| 149 | Gorchmynion risg rhywiol: pŵer i osod gofynion cadarnhaol | 151 | 174 | |
| 150 | Gofynion cadarnhaol: gwelliannau pellach | 152 | 175 | |
| 151 | Gofynion monitro electronig | 153 | 176 | |
| 152 | Gofynion cadarnhaol a gofynion monitro electronig: llysoedd gwasanaeth | 154 | 177 | |
| 153 | Gorfodi gofynion gorchmynion a wneir yn yr Alban neu yng Nghogledd Iwerddon | 155 | 178 | |
| 154 | Effaith euogfarn am dorri gorchymyn yr Alban etc | 156 | 179 | |
| 155 | Gorchmynion sy'n disodli gorchmynion yr Alban, neu sy’n cael eu disodli ganddynt | 157 | 180 | |
| 156 | Amrywio etc orchymyn gan lys mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig | 158 | 181 | |
| 157 | Troseddwyr terfysgol a ryddhawyd ar drwydded: arestio heb warant tra'n aros am benderfyniad adalw | 159 | 182 | |
| 158 | Pŵer i chwilio troseddwyr terfysgol a ryddhawyd ar drwydded | 160 | 182 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 159 | Chwilio mangre troseddwr a ryddhawyd ar drwydded at ddibenion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn rhag risg o derfysgaeth | 161 | 184 | |
| 160 | Pwerau atafaelu a chadw | 162 | 185 | |
| 161 | Adrannau ~~157~~ 182 i ~~160~~ 185: darpariaeth ganlyniadol | 163 | 186 | |
| 162 | Trefniadau ar gyfer asesu etc risgiau a achosir gan droseddwyr penodol | 164 | 187 | |
| | Gorchmynion gwahardd ar gyfer pêl-droed: troseddau perthnasol | | 188 | |
| | Gorchmynion gwahardd pêl-droed: pŵer i ddiwygio rhestr o droseddau perthnasol | | 189 | |
| | Gorchmynion gwahardd ar gyfer pêl-droed: gofyniad i wneud gorchymyn wrth euogfarnu etc | | 190 | |
| 163 | Adsefydlu troseddwyr | 165 | 191 | |
| | Diystyru rhai euogfarnau neu rybuddiadau | | 192 | |
| | Maddeueb ar gyfer rhai euogfarnau neu rybuddiadau | | 193 | |
| 164 | Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer rheithwyr byddar | 166 | 194 | |
| 165 | Parhau â threial troseddol ar ôl marwolaeth rheithiwr neu ryddhau rheithiwr | 167 | 195 | |
| 166 | Arsylwi a chofnodi achosion llysoedd a thribiwnlysoedd o bell | 168 | 196 | |
| 167 | Trosedd o recordio neu drawsyrru mewn mewn pethynas ag achosion o bell | 169 | 197 | |
| 168 | Ehangu'r defnydd o gysylltiadau fideo a sain mewn achosion troseddol | 170 | 198 | |
| 169 | Diddymu darpariaeth dros dro | 171 | 199 | |
| | Gweithdrefn garlam ar gyfer rheoliadau cychwynnol ynghylch arsylwi trafodion o bell | 172 | 200 | |
| | Trosedd o ofyn am neu dderbyn cysylltiadau rhywiol fel amod llety | | 201 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Trosedd o drefnu neu hwyluso gofyn am neu dderbyn cysylltiadau rhywiol fel amod llety | | 202 | |
| | Gorchymion carlam i ddiogelu mannau cyhoeddus | | 203 | |
| 170 | Darpariaeth ariannol | 173 | 204 | |
| 171 | Mân ddiwygiad sy’n codi o gydgrynhoi dedfrydau | 174 | 205 | |
| 172 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol | 175 | 206 | |
| 173 | Pŵer i ddatgan yr effaith yn Neddf Dedfrydu 2020 o gychwyn diwygiadau a wnaed gan y Ddeddf hon | 176 | 207 | |
| 174 | Rhychwant | 177 | 208 | |
| 175 | Cychwyn | 178 | 209 | |
| 176 | Enw byr | 179 | 210 | |